This document is available in English. Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg.

UNED GWAITH ACHOS MYFYRWYR

GWEITHDREFN ASESU RISG

1. Gellir galw Panel Asesu Risg ynghyd pan fydd y Brifysgol yn cael ei hysbysu, neu'n dod i wybod bod:

   - myfyriwr wedi datgelu ei fod, yn ystod ei astudiaethau, wedi derbyn rhybuddiad, cyhuddiad neu euogfarn droseddol;
   - myfyriwr/prentis yn destun ymchwiliad gan yr awdurdodau perthnasol oherwydd bod amheuaeth ei fod wedi cyflawni trosedd ddifrifol;
   - mae ymchwiliad i drosedd ddifrifol honedig ar fin cychwyn;
   - pryder wedi'i godi yn ystod ymchwiliad i gamymddygiad honedig fod y myfyriwr/prentis yn berygl iddo'i hun neu i bobl eraill;
   - mae myfyriwr/prentis wedi methu, ar adeg derbyn, â datgelu collfarn 'heb ddarfod' berthnasol sydd â chosbau cysylltiedig a allai gael effaith yn ystod ei gyfnod astudio, yn enwedig lle gallai fod yn ofynnol i'r Brifysgol adlewyrchu unrhyw gyfyngiadau a amodau yn eu lle;
   - unrhyw amgylchiad arall lle gallai gweithredoedd myfyriwr/prentis beryglu lles cymuned y Brifysgol neu niweidio enw da'r sefydliad.

2. Mae'n ofynnol i'r asesiad risg wneud argymhellion ar gyfer gweithredu rhagofalus lle bo angen ac yn briodol, yng nghyd-destun diogelu'r[1] Myfyriwr/Prentis sy'n Ymateb eu hunain, y Parti Adrodd, aelodau eraill o gymuned y Brifysgol neu enw da'r Brifysgol.

3. Rôl y Panel Asesu Risg yw asesu'r risgiau sy'n codi o'r digwyddiad honedig ar sail yr honiad a adroddwyd i'r Brifysgol (gweler Atodiad 1 am fanylion am rolau aelodau unigol y Panel). Wrth gynnal yr asesiad risg, nid rôl y Panel yw ymchwilio na phenderfynu a yw'r digwyddiad honedig wedi digwydd fel yr adroddwyd, er y gall ailgynnull wrth i ragor o wybodaeth ddod i'r amlwg. Mae gweithdrefn y Brifysgol ar gyfer ymdrin â chamymddwyn sydd hefyd yn drosedd i'w gweld yn adrannau 6.8 i 6.12 o'r Weithdrefn Ymddygiad Myfyrwyr.

4. Rhaid i'r Panel Asesu Risg nodi pa ddigwyddiadau sydd i'w hadrodd i gyrff allanol (er enghraifft Comisiwn Elusennau Cymru a Lloegr) a'r person cyfrifol, yn ôl y gofyn, ac yn unol â'u canllawiau.

Cyfansoddiad Panel Asesu Risg

5. Bydd y Panel Asesu Risg yn cynnwys y canlynol. Caniateir i enwebai aelod o'r Panel fynychu yn ei le.

   - Ysgrifennydd y Brifysgol neu enwebai (Cadeirydd)
   - Cyfarwyddwr Gwasanaethau Myfyrwyr

[1] Defnyddir y term diogelu yma i gyfeirio at ddiogelu iechyd, lles a hawliau unigolion.

This document is available in English. Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg.

- Cyfarwyddwr Gwasanaethau'r Gaplaniaeth
- Cyfarwyddwr Gwasanaethau Aelodaeth, Undeb y Myfyrwyr
- Partner Cyfathrebu a'r Cyfryngau
- Pennaeth Gwasanaethau Busnes Ystadau
- Rheolwr Diogelwch a Glanhau
- Deon Cyfadran y myfyriwr
- Pennaeth Pwnc y myfyriwr
- Cynrychiolydd Adnoddau Dynol
- Cyfreithiwr y Brifysgol
- Pennaeth Cydymffurfiaeth a Rheolwr Cydymffurfiaeth Mewnfudo
- Pennaeth Datblygu Rhyngwladol a Phartneriaeth
- Pennaeth Gwaith Achos Myfyrwyr neu enwebai (Ysgrifennydd)

Bydd y Cadeirydd, trwy ymgynghori â'r Pennaeth Gwaith Achos Myfyrwyr yn cadarnhau pa staff y mae'n ofynnol iddynt fynychu, yn dibynnu ar natur yr achos. Gall y Cadeirydd ofyn am aelod staff sydd ag arbenigedd penodol i fynychu cyfarfod, os ystyrir bod hynny'n angenrheidiol.

Bydd Swyddog Cyswllt yn cael ei neilltuo i'r Myfyrwyr sy'n Adrodd a'r Myfyrwyr sy'n Ymateb pan fydd y Panel Asesu Risg yn penderfynu bod angen cymryd camau rhagofalus. Byddant yn bwynt cyswllt i arwain y myfyriwr drwy'r Weithdrefn a byddant yn danfon unrhyw ohebiaeth. Neilltuir Swyddogion Cyswllt gwahanol i fyfyrwyr Adrodd ac Ymateb.

Swyddogaeth Panel Asesu Risg

6. Swyddogaeth y Panel Asesu Risg yw:

- gwerthuso'r amgylchiadau fel y'u cyflwynwyd;
- nodi a mesur risgiau;
- cynghori Ysgrifennydd y Brifysgol (neu enwebai) ynghylch pa gamau, os o gwbl, y dylid eu cymryd i ddileu neu leihau'r risgiau.

Proses ar gyfer Asesu Risg ac Ystyried Camau Rhagofalus

7. Wrth asesu risg a phenderfynu pa argymhellion y mae'n ei gynnig ynglŷn â chamau rhagofalus y dylid eu cymryd, rhaid ystyried y canlynol:

- y math o gamymddygiad;
- amgylchiadau'r digwyddiad;
- amgylchiadau'r unigolion dan sylw;
- barn yr heddlu/erlynydd/gwasanaeth prawf.

8. Bydd y Panel Asesu Risg yn ystyried effaith neu effaith bosibl ar y Parti sy'n Adrodd/Myfyriwr/Prentis sy'n Ymateb ar unrhyw fesurau a gymerwyd a'r trefniadau cymorth y mae angen eu rhoi ar waith (er enghraifft, cymorth bugeiliol un i un, sesiynau cwnsela ac addasiadau academaidd). Bydd y Panel Asesu Risg hefyd yn ystyried unrhyw fesurau y mae angen eu rhoi ar waith i amddiffyn yr ymchwiliad.

9. Bydd gan y Myfyriwr/Prentis sy'n Ymateb yr hawl i gyflwyno sylwadau ysgrifenedig cyn i'r penderfyniad gael ei wneud neu, os nad yw hynny'n bosibl oherwydd natur frys neu sensitif y mater, cyn gynted â phosibl wedi hynny.

This document is available in English. Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg.

10. Bydd y Cadeirydd yn ysgrifennu at y Myfyriwr/Prentis sy'n Ymateb o fewn 2 ddiwrnod gwaith i roi gwybod iddo am ganlyniad y cyfarfod.

11. Rhaid i gamau rhagofalus fod yn rhesymol a chymesur; nid cosb yw camau o'r fath, ond gweithred ddiduedd i alluogi'r Brifysgol i gymhwyso'i rheoliadau. Dyma restr anghyflawn o enghreifftiau o gamau rhagofalus posibl y gellir eu cymryd:

    - Gwahardd y Myfyriwr/Prentis sy'n Ymateb o'i astudiaethau dros dro; dehonglir hyn fel gwaharddiad dros dro o holl gampysau a gwasanaethau'r Brifysgol, gan gynnwys llety preswyl, oni bai bod y Panel yn gwneud eithriadau ac yn eu cyfleu i'r Myfyriwr/Prentis sy'n Ymateb yn ysgrifenedig. Fodd bynnag, bydd y Myfyriwr/Prentis sy'n Ymateb yn cael dod i'r campws i gael unrhyw gymorth sydd ei angen wrth baratoi ei amddiffyniad, e.e. gan Undeb y Myfyrwyr neu'r Gwasanaethau Lles, ar yr amod y gwneir apwyntiadau yn ffurfiol ac ymlaen llaw drwy'r Uned Gwaith Achos Myfyrwyr neu'r adran gwasanaethau proffesiynol eraill.
    - Atal y Myfyriwr/Prentis sy'n Ymateb dros dro rhag mynd i'r campws, neu rai rhannau o'r campws (er enghraifft, Undeb y Myfyrwyr neu neuaddau preswyl).
    - Gwahardd y Myfyriwr/Prentis sy'n Ymateb rhag defnyddio cyfleusterau TG y Brifysgol.
    - Gosod cyfyngiadau/amodau penodol ar y Myfyriwr/Prentis sy'n Ymateb (er enghraifft, gofyn i'r Myfyriwr/Prentis sy'n Ymateb symud llety a/neu ofyn iddo/iddi beidio â chysylltu ag unigolion penodol a/neu ofyn iddo/iddi fynychu cyfarfodydd rheolaidd gyda staff enwebedig neu asiantaethau allanol).
    - Atal y Myfyriwr/Prentis sy'n Ymateb dros dro o leoliad gwaith.

12. Os na chymerir camau disgyblu wedyn, bydd y Brifysgol yn sicrhau, cyn belled ag y bo modd, nad yw'r ataliad dros dro wedi rhoi'r Myfyriwr/Prentis sy'n Ymateb dan anfantais.

13. Gall Panel Asesu Risg gymryd camau rhagofalus mewn perthynas â myfyrwyr sydd wedi'u cofrestru ymlaen llaw os ydynt wedi bod yn fyfyriwr yn ystod y flwyddyn academaidd flaenorol.

14. Bydd y cyfnod amser ar gyfer adolygiad yn cael ei bennu gan y Panel Asesu Risg, gan ystyried amgylchiadau unigol pob achos. Fel arfer gellir rheoli hyn o dan y Broses Llwybr Carlam (gweler adran 19).

15. Gall y Brifysgol a/neu'r Myfyriwr/Prentis sy'n Ymateb ofyn i'r Panel Asesu Risg ailymgynnull i ystyried penderfyniad blaenorol os bydd newid sylweddol yn amgylchiadau'r achos neu os daw tystiolaeth newydd i'r amlwg; er enghraifft, os yw amodau mechnïaeth wedi newid neu os yw ymchwiliad yr heddlu wedi'i ollwng.

16. Os bydd gweithredoedd y Myfyriwr/Prentis sy'n Ymateb wedi effeithio ar aelod arall o gymuned y Brifysgol, bydd y Panel Asesu Risg yn ei hysbysu am unrhyw gamau rhagofalus a gymerwyd, pe bai hynny'n cael ei ystyried yn angenrheidiol.

17. Bydd y Myfyriwr/Prentis sy'n Ymateb a'r Parti sy'n Adrodd yn cael ei gynghori i geisio cymorth ac/neu arweiniad gan y Gwasanaethau Myfyrwyr fel y bo'n briodol, ac yn arbennig gan y tîm Cynghori Ariannol i Fyfyrwyr ynglŷn â'u hamgylchiadau ariannol, a goblygiadau unrhyw gamau rhagofalus, os oes angen.

18. Os bydd myfyriwr yn tynnu'n ôl o'i astudiaethau cyn neu yn dilyn ystyriaeth gan Banel Asesu Risg, caiff y risg ei symud i weithdrefnau priodol eraill y Brifysgol i'w rheoli.

This document is available in English. Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg.

Proses Llwybr Carlam

19. Efallai y bydd amgylchiadau lle mae proses llwybr carlam yn angenrheidiol neu'n gymesur, er enghraifft lle mae risgiau uniongyrchol i barti neu aelod o gymuned y Brifysgol y mae angen mynd i'r afael â nhw. Bydd y Cadeirydd yn ystyried neu'n adolygu'r achos ac unrhyw gamau rhagofalus, gyda chymorth gweinyddol yn cael ei ddarparu gan yr Uned Gwaith Achos Myfyrwyr. Gellir hwyluso hyn trwy ohebiaeth. Penderfyniad y Cadeirydd yw a ddylid defnyddio'r broses llwybr carlam.

20. Bydd cyfarfod ffurfiol nesaf y Panel Asesu Risg yn derbyn ac yn adolygu unrhyw benderfyniad a wneir o dan y Broses Trywydd Cyflym.

Cais am Adolygiad

21. Gall y Myfyriwr/Prentis sy'n Ymateb ofyn am adolygiad o ganlyniad penderfyniad cychwynnol y Panel Asesu Risg neu unrhyw benderfyniad dilynol, mwy difrifol gan banel a gafodd ei alw ynghyd eto. Rhaid gwneud hyn yn ysgrifenedig gan ddefnyddio'r ffurflen safonol 'Cais am Adolygiad o Ganlyniad y Panel Asesu Risg' a rhaid cyflwyno'r ffurflen i'r Uned Gwaith Achos Myfyrwyr, o fewn 5 diwrnod gwaith ar ôl cael gwybod am y gwaharddiad.

22. Bydd y cais am adolygiad yn cael ei ystyried gan Banel Adolygu o fewn 10 diwrnod gwaith o'i dderbyn.

23. Bydd aelodaeth y Panel Adolygu fel a ganlyn:

    - Is-Ganghellor (neu enwebai);
    - Aelod o'r uwch dîm rheoli.

    Os bydd gwahaniaeth barn rhwng y ddau aelod o'r Panel, yr Is-Ganghellor (neu enwebai) fydd â'r bleidlais fwrw.

    Bydd yr Ysgrifennydd, nad yw'n aelod o'r Panel Adolygu, yn bresennol trwy gydol y trafodion. Pennaeth Gwaith Achos Myfyrwyr, neu enwebai fydd yr Ysgrifennydd.

    Ni fydd aelodau'r Panel Adolygu wedi cael unrhyw gysylltiad blaenorol â'r achos na chysylltiad â'r myfyriwr.

24. Gall y Panel Adolygu ofyn am ragor o wybodaeth gan y Parti sy'n Adrodd a/neu'r Myfyriwr/Prentis sy'n Ymateb a/neu gan y Panel Asesu Risg a wnaeth y penderfyniad gwreiddiol am gamau rhagofalus.

25. Ar ôl ystyried y cais am adolygiad, gall y Panel Adolygu:

    - ategu penderfyniad gwreiddiol y Panel Asesu Risg;
    - gwyrdroi penderfyniad gwreiddiol y Panel Asesu Risg, a chadarnhau penderfyniad newydd.

Cydymffurfio

26. Bydd methiant ar ran y Myfyriwr/Prentis sy'n Ymateb i gydymffurfio â phenderfyniad y Panel Asesu Risg yn peri adolygiad ar unwaith, a all arwain at weithredu mesurau mwy llym neu at gyfeirio'r myfyriwr yn syth at Reoliadau Ymddygiad Myfyrwyr neu Ffitrwydd i Ymarfer y Brifysgol.

This document is available in English. Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg.

27. Os bydd y Myfyriwr/Prentis sy'n Ymateb yn gwrthod bodloni amodau/gofynion y Panel Asesu Risg, gall gael ei gyfeirio at Reoliadau Ymddygiad Myfyrwyr neu Ffitrwydd i Ymarfer y Brifysgol.

Achosion sy'n Cynnwys Prentisiaid

28. Yn achos Prentisiaid, bydd cyfeiriadau at y Weithdrefn Asesu Risg, a chanlyniadau yn sgil cyfeiriad o'r fath, yn cael eu hadrodd i Ddeon y Gyfadran (neu enwebai), a fydd yn hysbysu cyflogwr y Prentis.

This document is available in English. Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg.

YMDDYGIAD MYFYRWYR: FFURFLEN ASESU RISG 2020-21

Enw'r Myfyriwr sy'n Ymateb	
Rhif Cofrestru	
Cwrs a Blwyddyn Astudio	
Cyfadran	
Aelodau'r Panel	
Dyddiad y Penderfyniad	
Dyddiad Adolygu	

YSTYRIAETH O RISG

Crynodeb o'r sefyllfa bresennol
Pa risg y mae'r myfyriwr yn ei gyflwyno i gymuned y Brifysgol? **Pa dystiolaeth/hanes sy'n dangos hyn?**
Pa risg y mae'r myfyriwr yn ei gyflwyno i fyfyrwyr neu staff penodol? **Pa dystiolaeth/hanes sy'n dangos hyn?**
A yw'r myfyriwr yn cyflwyno risg iddo'i hun? **Pa dystiolaeth/hanes sy'n dangos hyn?**
A fydd y myfyriwr yn dod i gysylltiad â myfyriwr sy'n adrodd neu dystion, e.e. llety, dosbarthiadau, timau chwaraeon ac ati?

This document is available in English. Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg.

ASESU RISG

Risg i les a diogelwch y myfyrwyr sy'n ymateb ac yn adrodd ac eraill	Bron yn Sicr 12	Canolig 12	Canolig 24	Uchel 60	Uchel Iawn 120	Uchel Iawn 240
	Tebygol 9	Canolig 9	Canolig 18	Uchel 45	Uchel 90	Uchel Iawn 180
	Bach 5	Isel 5	Canolig 10	Canolig 25	Uchel 50	Uchel Iawn 100
	Annhebygol 2	Isel 2	Isel 4	Canolig 10	Canolig 20	Uchel 40
	Prin 1	Isel 1	Isel 2	Canolig 5	Canolig 10	Canolig 20
		Dibwys 1	Mân 2	Cymedrol 5	Mawr 10	Difrifol 20
	Risg i'r teimladau o fregusrwydd o fewn cymuned y Brifysgol a'r niwed posibl i enw da'r Brifysgol					

Sgôr asesiad risg cyn lliniaru		**Sgôr asesiad risg ar ôl lliniaru**	

LLINIARU RISG

Sut byddai atal y myfyriwr o'r Brifysgol yn lliniaru'r risgiau?[2]
Sut byddai tynnu mynediad yn ôl o gyfleusterau/mannau penodol o'r brifysgol yn lliniaru'r risgiau?
Sut byddai gosod rhai cyfyngiadau/amodau yn lliniaru'r risgiau?

[2] Dim ond pan fydd sgôr asesiad risg cyn lliniaru yn UCHEL neu'n uwch y dylid ystyried atal dros dro fel arfer

This document is available in English. Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg.

Sut y gellid lliniaru/rheoli canlyniadau unrhyw gamau rhagofalus

ADRODD DYLETSWYDD/DIOGELU PRYDERON

A oes dyletswydd arnom i roi gwybod am ddigwyddiadau difrifol y mae angen ei chodi? (e.e. y Comisiwn Elusennau)
A oes angen cyfeirio'r achos at Banel Diogelu?

CASGLIAD

Penderfyniad a chyfiawnhad cyffredinol dros y penderfyniad a wnaed
Mecanweithiau cyfathrebu (pwy sydd angen ei hysbysu, a lefel y manylion i'w darparu)

Llofnod y Cadeirydd	
Dyddiad	
Dyddiad Adolygiad	

This document is available in English. Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg.

ADOLYGIAD

Newidiadau sylweddol ers yr asesiad risg blaenorol
Newidiadau i'r camau rhagofalus sydd eu hangen
Mecanweithiau cyfathrebu (pwy sydd angen eu hysbysu a lefel y manylder i'w darparu)

This document is available in English. Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg.

Atodiad 1: Rolau a Chyfrifoldebau Aelodau'r Panel[3]

Rôl	Cyfrifoldebau
Cadeirydd	Sicrhau bod pob cyfarfod yn cael ei gynnal yn unol â'r Weithdrefn Sicrhau bod materion yn cael eu trin mewn modd trefnus ac effeithlon Sicrhau bod y Panel yn arfer ei gydgyfrifoldeb am asesu risg Sicrhau bod cofnod cywir o'r pwyntiau allweddol a drafodwyd yn ystod y cyfarfod, bod sgorau cyn ac ar ôl lliniaru'n cael eu cytuno, a bod camau rhagofalus priodol yn cael eu rhoi ar waith, os oes angen Trosolwg a chymeradwyaeth derfynol o gofnod y cyfarfod a gohebiaeth gysylltiedig â phartïon allweddol Sicrhau yr adroddir am ddigwyddiadau i gyrff allanol yn ôl yr angen, ac yn unol â'u canllawiau Awdurdod cyffredinol i benderfynu a ddylid adrodd am ddigwyddiad i'r heddlu yn groes i ddymuniadau'r sawl sy'n adrodd, ar gyngor aelodau'r Panel
Ysgrifennydd	Gwneud yr holl drefniadau priodol ar gyfer cyfarfodydd y Panel Asesu Risg Drafftio cofnod o gyfarfodydd a gohebiaeth gysylltiedig a sicrhau bod y ffeil achos yn gywir ac yn gyfredol Rhoi arweiniad i'r Cadeirydd ac aelodau'r Panel ar reoliadau a gweithdrefnau a chynghori ar gynsail achos Sicrhau bod hyfforddiant priodol yn cael ei ddarparu i'r Cadeirydd ac aelodau'r Panel, o dan gyfarwyddyd cyffredinol y Pennaeth Gwaith Achos Myfyrwyr/Rheolwr Gwaith Achos Myfyrwyr
Cynrychiolwyr cyfadrannau	Rhoi gwybodaeth berthnasol i'r Panel am astudiaethau academaidd y myfyriwr ac unrhyw gyswllt posibl y gallai'r myfyriwr sy'n ymateb ei gael â grŵp adrodd Ymgynghori â staff perthnasol a rhoi gwybodaeth i'r Panel am yr effaith bosibl y gallai unrhyw gamau rhagofalus ei chael ar astudiaethau academaidd myfyriwr a lle gallai fod ystyriaethau o ran amserlenni y mae angen eu hystyried, er enghraifft lle gallai camau rhagofalus parhaus effeithio ar fisa myfyriwr neu allu i symud ymlaen i gam nesaf ei gwrs Lledaenu penderfyniadau'r Panel Asesu Risg fel y bo'n briodol

[3] Tra bod gan bob aelod o'r Panel wybodaeth ac arbenigedd penodol, disgwylir i bob aelod ystyried y materion a gyflwynir ac asesu risg yn unol â hynny.

This document is available in English. Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg.

	Asesu risg mewn perthynas â'r aelodau staff dan sylw a chyfathrebu'n effeithiol o fewn y gyfadran i reoli risg
Cyfarwyddwr Gwasanaethau Myfyrwyr / Cyfarwyddwr Gwasanaethau'r Gaplaniaeth	Cynghori'r Panel ar faterion lles
Cyfarwyddwr Gwasanaethau Aelodaeth, Undeb y Myfyrwyr	Cynrychioli corff y myfyrwyr a buddiannau pob myfyriwr
Partner Cyfathrebu a Chyfryngau (ar gyfer cyfadran y Myfyriwr sy'n Ymateb)	Cynghori'r Panel ar y posibilrwydd o niwed i enw da ac unrhyw gamau adferol y gall fod angen eu cymryd o ganlyniad
Rheolwr Diogelwch a Glanhau	Cynghori'r Panel ar faterion yn ymwneud â diogelwch y campws
Pennaeth Gwasanaethau Busnes Ystadau	Cynghori'r Panel ar faterion llety sy'n ymwneud â'r myfyriwr/parti adrodd a ymatebodd a chymryd unrhyw gamau adferol mewn perthynas â threfniadau llety yn ôl yr angen gan y Panel.
Cynrychiolydd Adnoddau Dynol	Cynghori'r Panel ar gyfraith cyflogaeth ac ystyriaethau eraill lle mae digwyddiad/honiad yn ymwneud ag aelod o staff
Cyfreithiwr y Brifysgol	Cynghori'r Panel ar unrhyw bwyntiau/ystyriaethau cyfreithiol
Pennaeth Cydymffurfiaeth a Mewnfudo Rheolwr Cydymffurfiaeth / Pennaeth Datblygu Rhyngwladol a Phartneriaeth	Cynghori'r Panel ar faterion mewnfudo a goblygiadau posibl argymhellion/penderfyniadau ar statws mewnfudo'r myfyriwr ac unrhyw risg bosibl i'n statws noddwr UKVI
Swyddog Cyswllt RAP	Gweithredu fel pwynt cyswllt ar gyfer y myfyriwr. Bydd y rôl yn cynnwys: - arwain y myfyriwr drwy'r Weithdrefn - cyflwyno negeseuon/gohebiaeth (gall hyn gynnwys cyflwyno wyneb yn wyneb lle bernir bod hynny'n angenrheidiol ac yn gymesur) - cefnogi'r myfyriwr yn barhaus.